# Cofnodion

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher, 19 Awst 2020 |
| Amser: | 3.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman |

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3 **Llongyfarchiadau a Chroeso**

Croesawodd yr Arweinydd Beverly Owen i'r cyfarfod yn rhinwedd ei swydd fel prif Weithredwr newydd y Cyngor, a llongyfarch Mrs Owen ar ei phenodiad.

4 **Cofnodion Drafft o Gabinet mis Gorffennaf**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2020 fel rhai cywir.

5 **Achos busnes dros y Gwasanaeth Prawf, Olrhain Amddiffyn**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, oedd yn rhoi cyfoesiad am Wasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent, a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i'r strwythur cyflwyno gweithredol, llywodraethiant a threfniadau ariannol y gwasanaeth.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cabinet ym mis Mehefin wedi derbyn adroddiad interim ar y gwaith a wnaed i sefydlu Tîm Olrhain Cysylltiadau Lleol yng Nghasnewydd a chadarnhaodd y Cabinet y camau brys a gymerwyd gan swyddogion i ddatblygu a gweithredu'r gwasanaeth hwnnw dros dro.

Yr oedd yr adroddiad a gadarnhawyd gan y Cabinet ym mis Mehefin yn cydnabod mai trefniadau interim am y misoedd cyntaf oedd y camau, i gael y gwasanaeth i redeg o fewn

amserlen dynn iawn. Cytunwyd y byddai angen strategaeth lawn at y dyfodol, ar y cyd a phartneriaid eraill, i ddatblygu model cyflwyno a strwythur llywodraethiant at y tymor hwy. Yr oedd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth yn hollbwysig, gan nad oedd modd ei gyflwyno fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr adroddiad gerbron y Cabinet heddiw yn rhoi cyfoesiad am y datblygiadau gyda Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i'r strwythur cyflwyno gweithredol, llywodraethiant a threfniadau ariannol y gwasanaeth.

Cadarnhaodd yr Arweinydd hefyd fod Strategaeth Profi, Olrhain, Amddiffyn Llywodraeth Cymru yn rhan ganolog o'u cynllun adfer o Covid-19. Mae olrhain cysylltiadau yn y gymuned yn elfen allweddol o'r Strategaeth, a gofynnodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd ar y cyd i gynnal gwasanaethau olrhain cysylltiadau ar sail ardaloedd y Byrddau Iechyd.

Esboniodd yr Arweinydd fod olrhain cysylltiadau yn cael ei wneud pan gadarnheir diagnosis o Covid-19, h.y., canlyniad positif i brawf. Y pwrpas yw cysylltu â rhywun gafodd brawf positif i gadarnhau y bydd yn rhaid ynysu am saith diwrnod, ac y bydd angen i'r aelwyd hefyd ynysu am 14 diwrnod; bydd y sawl sy'n olrhain hefyd yn gofyn i'r achos rannu gwybodaeth am y sawl y bu mewn cysylltiad â hwy yn ddiweddar. Olrheinir y cysylltiadau hyn a rhoi gwybod iddynt fod yn rhaid iddynt ynysu am 14 diwrnod; yn ystod y cyfnod hwn, sefydlir cyswllt dyddiol i fonitro er mwyn gweld a yw wedi datblygu unrhyw symptomau. Os felly, gofynnir iddynt gymryd prawf a dod i mewn i'r system fel achos newydd os byddant yn bositif, ac yn y blaen.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod olrhain cysylltiadau wedi bod yn digwydd yng Ngwent ers dechrau Mehefin trwy symud staff o fewn y pum awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB). Mae'r pum awdurdod lleol wedi sefydlu gwasanaethau olrhain cysylltiadau, sy'n cael eu cydgordio fel bod y rhanbarth cyfan yn derbyn gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg saith diwrnod yr wythnos, a chefnogir tîm olrhain cysylltiadau'r Cyngor gan Swyddogion Iechyd Amgylchedd yr awdurdodau lleol ledled y rhanbarth a chan Arweinyddion Clinigol, Ymgynghorwyr mewn Amddiffyn Iechyd, ac Ymgynghorwyr Clefydau Trosglwyddadwy o BIPAB ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd fod Llywodraeth Cymru bellach wedi cadarnhau'r trefniadau cyllido ar gyfer olrhain cysylltiadau. Mae adroddiad y Cabinet yn gosod allan gynigion am gam nesaf Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent, sef symud o weithlu sydd wedi newid swyddi at fodel cyflogi llawn er mwyn sicrhau y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus. Neilltuwyd cyfanswm grantiau o hyd at £9.6 miliwn ar gyfer cost y gwasanaeth hyd at 31 Mawrth 2021 a neilltuwyd £200k yn ychwanegol am gostau cyfalaf cyfarpar TG.

Datblygwyd model gweithlu wedi ei gostio ar gyfer Casnewydd; fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac y maent hwy wedi cytuno, a phetai'r nifer a nodir yn y model yn cael eu cyflogi (tua 90 cyfatebol llawn-amser), byddai'r gost i Gasnewydd a ddeuai dan y cyllid tua £1.7m erbyn diwedd Mawrth 2021. Mae'r dyraniad grant sydd ar gael yn cynnwys cyllid am Swyddog Amgylchedd ychwanegol, i gryfhau'r adnoddau i ymateb i ddigwyddiadau o Covid -19, clystyrau a digwyddiadau yn unol â'r dyletswyddau statudol am glefydau trosglwyddadwy a heintus.

Mae'r adroddiad yn cynnig model partneriaeth i gyflwyno Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent. Bydd gan bob sefydliad rolau a chyfrifoldebau clir, fel sydd wedi eu hamlinellu yn yr Achos Busnes, sydd yn Atodiad i adroddiad y Cabinet, ac a gaiff ei ffurfiol trwy Femorandwm dealltwriaeth. Mae'r Achos Busnes yn cynnwys cylchoedd gorchwyl y gwahanol haenau o'r gwasanaeth. Bydd y Bwrdd Strategol yn bartneriaid G10.

Cynigir mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fydd yr awdurdod arweiniol i Swyddfa Rheoli'r Rhaglen (SRhRh) a fydd yn cefnogi ac yn sicrhau y cyflwynir y gwasanaeth yn effeithiol ar draws y sefydliadau sydd yn y bartneriaeth. Mae rôl y SRhRh wedi ei osod allan yn glir yn adroddiad y Cabinet. BIPAB fydd yr arweinydd ariannol, a bydd yn cyflawni swyddogaeth y "banciwr" fel y sawl sy'n derbyn arian grant, a hwy wedyn fydd yn dosbarthu'r cyllid i bob awdurdod lleol, yn ad-dalu costau'r timau lleol, yn debyg i'r trefniadau ICF cyfredol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod llawer wedi ei gyflawni i sefydlu Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent mewn byr amser. Mae adroddiad y Cabinet yn gosod allan gynigion am gam nesaf y gwasanaeth ac yn dangos rôl ganolog awdurdodau lleol mewn ymateb i bandemig Covid-19. Wrth i ni symud allan o'r cyfnod clo, mae olrhain cysylltiadau yn rhan hanfodol o reoli a rhoi data a gwybodaeth am achosion a digwyddiadau yn ein cymunedau.

Mae'n hanfodol fod Cyngor Dinas Casnewydd yn chwarae eu rhan i gyflwyno Gwasanaeth Gwent, gan y bydd hynny yn helpu Casnewydd, ardal Gwent a Chymru gyfan i aros allan o fod 'dan glo' ac yn y man, adfer o effaith y pandemig. Cytunodd y G10 â'r cynigion yn eu cyfarfod ar 29 Mehefin 2020 ac y mae'r awdurdodau lleol hynny yng Ngwent wedi penderfynu fod angen penderfyniad ffurfiol yn awr. Gofynnir i Gabinet Cyngor Dinas Casnewydd gytuno'r ffurfiol â'r cynigion.

Pwysleisiodd yr Arweinydd mor hanfodol oedd cael y system hon ar waith at y dyfodol, a fydd yn helpu i amddiffyn trigolion nid yn unig yng Nghasnewydd ond ledled Gwent. Os cytuna'r Cabinet i gytuno â'r egwyddorion a osodir allan yn y drafft o Achos Busnes, argymhelliad yr adroddiad yw y dylai llofnodi'r MoDd gael ei ddirprwyo i swyddogion, ynghyd ag unrhyw fân newidiadau i'r Achos Busnes terfynol, a derbyn fod hyn yn unol â'r telerau a gymeradwywyd heddiw gan y Cabinet.

<u>Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio i wneud sylwadau</u>:

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y cytunwyd ar y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau interim gan y Cabinet ym mis Mehefin, a bod y staff wedyn wedi eu symud i swyddi eraill, a chyda help gwirfoddolwyr, buan iawn yr oedd y system ar waith. Diolchodd i'r holl staff fu'n rhan o'r prosiect, yn enwedig y Swyddogion Safonau Masnach ac Iechyd Amgylchedd sydd wedi gwneud mwy na gofynion eu swyddi er mwyn gofalu bod y system yn llwyddiannus ac yn rhedeg yn llawn yn gynnar iawn. Cadarnhaodd fod angen i awdurdodau lleol yn awr fynd ati i gyflogi a hyfforddi staff newydd i fwrw ymlaen â'r cam nesaf i Wasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent, gan symud o weithlu oedd wedi newid swyddi i fodel o gyflogi llawn er mwyn gwneud yn siŵr fod y gallu yno i gyflawni'n llawn. Mae cyfathrebu da yn hanfodol i lwyddiant parhaus y system hon, a datblygwyd protocol ar y cyd â rhwydweithiau yn y gymuned sydd yn defnyddio gwybodaeth leol, er enghraifft, trwy ddarparu gwasanaethau cyfieithu i'r trigolion hynny sydd heb fod â'r Saesneg yn iaith gyntaf. Cymeradwyodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad.

Yr oedd yr Arweinydd yn llwyr gefnogi sylwadau'r Aelod Cabinet, a diolchodd iddo am ei ddiwydrwydd a'i arweiniad ar y mater hwn.

Ategodd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden y sylwadau a wnaed, a diolchodd i'r holl staff am weithio cystal; cadarnhaodd hefyd ei bod yn hanfodol i'r gwasanaeth hwn fynd rhagddo fel model cyflogi llawn.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Asedau yr Aelod Cabinet a'r Arweinydd am eu harweiniad ar y prosiect hwn ac am gefnogi nid Casnewydd a'i thrigolion yn unig, ond holl ddinasyddion Cymru: cadarnhaodd y cyrhaeddwyd 90% o gysylltiadau COVID yng Nghymru.

Canolodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio a'r swyddogion am y gwaith gwych o gael y gwasanaeth hwn ar ei draen mor

sydyn ac effeithiol, mewn cyfnod dwys a llawn straen, sydd yn dal i fynd ymlaen. Pwysleisiodd bwysigrwydd profi, olrhain a chysylltu o ran nodi a rheoli achosion yn gynnar, a chytunodd fod cyfathrebu da yn allweddol mewn materion lleol ynghylch COVID-19, yn enwedig oherwydd y gall fod yn bresennol heb symptomau.

Adleisiodd yr Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau sylwadau ei gydweithwyr yn y Cabinet , a chadarnhaodd hefyd fod gwaith yn mynd ymlaen o ran geo-fapio a rhannu data.

Canmolodd yr Arweinydd/Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio, a'r staff am eu gwaith caled yn sicrhau bod rhan gyntaf y gwasanaeth hwn wedi gweithio'n dda o'r cychwyn, a phwysleisiodd eto ei bod yn bwysig i'r cyngor gadw rheolaeth dros gyfathrebu yn y dyfodol, gan y gall hyn osgoi, cyhyd ag sydd modd, unrhyw gloi lleol yn y dyfodol. Gofynnodd pwy fyddai'n gyfrifol am hyfforddi'r gweithlu newydd. Cadarnhaodd Mr Price, y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio, y bydd pob awdurdod lleol yn gyfrifol am ei hyfforddiant ei hun a fydd yn gyson ar draws pob awdurdod lleol yng Ngwent a'r Bwrdd Iechyd (gyda threfniant gweithio ar y cyd i gefnogi hyn). Dywedodd Mr Price fod dros 300 o geisiadau wedi eu derbyn am y swyddi newydd a hysbysebwyd, a bod y Cyngor hefyd yn cysylltu â phartneriaid i ddefnyddio unrhyw staff a all fod yn dal ar ffyrlo.

Diolchodd yr Arweinydd i bawb am eu sylwadau, a gofynnodd i'r Cabinet bleidleisio ar yr adroddiad.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet yn unfrydol i gadarnhau'r adroddiad.

6 **Rhaglen Waith y Cabinet**

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen Waith y Cabinet.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen wedi ei chyfoesi.

7 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Mercher 16 Medi 2020 am 4pm.